30 Mai 2009
Datganiad i'r wasg

Llwyddiant yn y Bae

Mae trefnyddion Eisteddfod yr Urdd yn falch iawn o gyhoeddi bod Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Bae Caerdydd 2009 wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

Heidiodd degau o filoedd o ymwelwyr o Gymru benbaladr a thu hwnt i fwynhau'r myrdd o atyniadau yn yr ŵyl. Unwaith eto roedd ardal Bae Caerdydd yn safle bendigedig i gynnal yr ŵyl, gyda Chanolfan Mileniwm Cymru yn ganolbwynt i'r cyfan, ac adeilad gwych y Senedd yn gartref gwych i'r arddangosfa gelf, dylunio a thechnoleg.

Profiad bythgofiadwy i'r plant a'r bobl ifanc oedd perfformio yn Theatr Donald Gordon, a hefyd i'r cefnogwyr a'r gynulleidfa lenwodd y 1,900 o seddi yn yr awditoriwm gydol yr wythnos.

Mae cyntedd y ganolfan wedi bod yn fwrlwm o weithgaredd gyda pherfformwyr ifanc yn diddanu'r cynulleidfaoedd ar lwyfan Glanfa, ac mae'r maes o amgylch y Ganolfan wedi bod yn fwrlwm drwy'r dydd bob dydd hefyd. Profodd Fflat Mistar Urdd yn ffefryn gydag Eisteddfodwyr mawr a mân, gydag ymweliad llywydd y dydd yn uchafbwynt dyddiol, ynghyd a pharti pen-blwydd yr Eisteddfod yn 80 oed. Roedd darpariaeth chwareon a phwll canwio'r Urdd yn atyniad hynod boblogaidd hefyd.

Ymysg y partneriaethau hen a newydd a ddathlwyd yr wythnos hon mae'r Urdd yn ymfalchio yn y cydweithio newydd gyda Disneyland Paris. Bydd pump o enillwyr yr Eisteddfod yn cael gwahoddiad i berfformio yn yr wyl Gymreig yn Disneyland Paris fis Mawrth nesaf. Cafodd Mickey Mouse groeso i'w gofio pan ddaeth i ymweld ag Eisteddfod yr Urdd ddydd Llun.

I nifer o'r ymwelwyr, un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd yr adloniant gyda'r nos, gyda Chyngerdd Agoriadol yr Eisteddfod gyda Bryn Terfel, Daniel Evans, a chyn enillwyr Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru yn codi'r to yn Theatr Donald Gordon. Dilynwyd hyn gan ddau berfformiad gwych o'r sioe gerdd Ffawd gan Gwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd.

Meddai Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod:

"Er nad oes Pwyllgor Gwaith yn yr Eisteddfod hon, dwi'n ddyledus i'r cannoedd o wirfoddolwyr am eu hymroddiad a'u cefnogaeth drwy'r wythnos ac yn ystod y

paratoadau. Mae cydweithrediad amrywiol sefydliadau, tirfeddianwyr, a mudiadau megis Canolfan Mileniwm Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyngor Caerdydd, Glannau Caerdydd, Sinemâu'r Odeon a Chanolfan y Red Dragon dros y tair blynedd diwethaf wedi cyfrannu'n arw tuag ar lwyddiant yr Eisteddfod, a hoffwn ddiolch yn ddidwyll iawn iddynt oll am eu croeso."

Meddai Judith Isherwood, Prif Weithredwr Canolfan Mileniwm Cymru:

"Pa well ffordd i ddathlu ein penblwydd yn bump oed eleni! O safbwynt y Ganolfan mae hi wedi bod yn Steddfod lwyddiannus iawn, o ran ansawdd a threfniant. Dwi'n mawr obeithio na fydd raid aros yn rhy hir cyn daw hi'n ôl yma ar lwyfan cenedlaethol y genedl. Does dim dwywaith mae'r plant a'r bobl ifanc wedi bod wrth eu boddau cael perfformio ar un o lwyfannau gorau'r byd, a thrueni byddai colli y cyfle hwn. Mae sawl un gan gynnwys Caryl Parry Jones a Hywel Gwynfryn wedi ategu hyn.

Dros yr wythnos gyfan mae'r Ganolfan wedi bod yn ymgorfforiad o weledigaeth greadigol y Ganolfan, yn wir ffwrnais awen sy'n arddangos y gorau o Gymru. Rhaid talu teyrnged arbennig i bawb sydd wedi gweithio mor galed tu ôl i'r llenni – yn staff a gwirfoddolwyr yr Urdd, a'n staff ein hunain, yn enwedig y glanhawyr sydd wedi gweithio mor galed i gadw sglein ar yr adeilad gyda miloedd ar filoedd o bobl bob dydd.

Edrychwn ymlaen yn awr i gael llwyfannu Cyngerdd Ysgoloriaeth Bryn Terfel yma ym mis Hydref."

Meddai Tudur Dylan Jones, Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau:

"Bu'n wythnos fendigedig unwaith eto. Roedd safon y cystadleuwyr a mwynhad yr ymwelwyr yn mynd law yn llaw. Bydd yr wythnos hon yn y Bae yn aros yn hir yn y cof, ac eisoes mae yna edrych ymlaen yn eiddgar at weld y safon a'r mwynhad yn parhau yng Ngheredigion y flwyddyn nesaf."

diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Mae 40,000 o bobl ifanc wedi cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2010 ar dir Llanerchaeron yng Ngheredigion, ac Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe.

30 May 2009
Press Release

SUCCESS IN THE BAY

The organisers of the Urdd Eisteddfod are delighted to announce that this year's Eisteddfod held at Cardiff Bay has been a major success.

Tens of thousands of visitors from all around Wales and beyond came to enjoy the myriad of attractions at the lively youth festival.. The Bay area provided the perfect venue for the Eisteddfod once again, with the Wales Millennium Centre as the hub, and the magnificent Senedd building housing the art, design and technology exhibition.

The thrill of performing in the Donald Gordon Theatre this year was a once in a lifetime experience for children and young people of every age, and also for the supporters and audience who filled the 1,900 seat capacity of the auditorium throughout the week.

The foyer of the centre has been a hive of activity with young performers entertaining the crowds at the Glanfa stage, with the Maes, all around the Wales Millennium Centre, busy and brimming with activities and attractions. Fflat Mistar Urdd was a firm favourite with Eisteddfod visitors of all ages, with the meet and greet sessions with the President of the Day a daily highlight, as well as the Eisteddfod's colourful 80th birthday party. The Urdd's sport facilities and canoeing pool were also extremely popular.

Amongst the existing and new partnerships celebrated this week, the Urdd is very pleased to be collaborating with Disneyland Paris. Five of the Eisteddfod's winners will be invited to perform in the Welsh festival at Disneyland next March. Mickey Mouse received a warm welcome when he made his first visit to the Eisteddfod on Monday.

For many visitors one of the highlights of the week was the evening entertainment, with the Eisteddfod's opening concert, with Bryn Terfel, Daniel Evans and previous winners of the Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru scholarship, raising the roof at the Donald Gordon Theatre. This was followed by two spectacular performance of the new musical, Ffawd (Fate) performed by Urdd Gobaith Cymru's National Youth Theatre.

Aled Siôn, Director of the Urdd Eistedfod said:

" Even though this Eisteddfod had no Executive Committee, I am indebted to the hundreds of volunteers who have given their utmost dedication and support this week and during the run-up to the event. The co-operation and support various establishments, landowners and organizations such as Wales Millennium Centre, the Assembly, Cardiff Council, Cardiff Waterside, Odeon Cinemas and Red Dragon Centre has contributed greatly towards the Eisteddfod's success, and I wish to thank them all most sincerely the for their welcome."

Judith Isherwood, Chief Executive of Wales Millennium Centre says:
"What better way to celebrate our fifth birthday this year! From the Centre's perspective it has been a very successful Eisteddfod. I very much hope that we don't have to wait too long before it returns to the nation's national stage. It's obvious that the children and young people enjoy performing on one of the world's greatest stages and we would not wish to miss this opportunity. Many people, including Caryl Parry Jones and Hywel Gwynfryn have echoed this.

"Over the week, the Centre has embodied its creative vision, an inspirational force and an exhibition of the best of Welsh talent.

"I must pay tribute to everyone who has worked so hard behind the scenes – the Urdd staff and volunteers and our own staff, especially the cleaners who have worked tirelessly to ensure the building remains sparkling even with thousands of people milling around every day.

"We now look forward to staging the Bryn Terfel Scholarship concert in October."

Tudur Dylan Jones, Chair of the Eisteddfod and the Arts Board added:
"Once again it's been a fabulous week. The standard of the competition and enjoyment of the visitors go hand in hand. This Eisteddfod in Cardiff Bay will stay with us for a long time, and we're already looking forward to see the standard and enjoyment continue in Ceredigion next year."

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

Editor's Note:

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people have competed in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00am - 5.00pm and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in the grounds of Llanerchaeron in Ceredigion in 2010 and in Swansea in 2011.